| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | **Y Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad** | **28:02:13** |
| **Aelod Cabinet** | **Y Cynghorydd Wyn Williams** |
| **Teitl** | **Adroddiad  Blynyddol Aelod Cabinet Gofal ac Iechyd** |
| **Amcan** | **Adrodd ar waith  Aelod Cabinet Gofal ac Iechyd dros y cyfnod  2012-2013 ac amlinellu cyfeiriad y gwasanaeth o 2013 ymlaen** |
| **Awdur** | |

**<u>1. Pwrpas yr Adroddiad</u>**

1.1 Prif amcan yr adroddiad yma yw diweddaru'r Cyngor ynglŷn â'r datblygiadau fu ym maes gwaith a gofal cymdeithasol yng Ngwynedd dros y flwyddyn ddiwethaf gan roddi sylw arbennig , hefyd , i'r hyn sydd ar y gweill dros y flwyddyn nesaf yn sgil datblygiadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

**<u>A – 2012-2013</u>**

**<u>2. Arweinyddiaeth:</u>**

2.1  Ym mis Awst 2012 penodwyd  Morwena Edwards i swydd Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol a  Phennaeth yr Adran Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol  a Hamdden a hynny'n dilyn ymadawiad y Cyfarwyddwr blaenorol Gwen Carrington a benodwyd yn Gyfarwyddwr ym Môn . Fel Cyngor, mynegwn ein diolch i Mrs Carrington am ei gwaith dros y blynyddoedd diwethaf a chroesawn Mrs Edwards gan edrych ymlaen at gydweithio â hi er lles trigolion a chymunedau Gwynedd. Eisoes sefydlwyd cyfundrefn sy'n sicrhau fy mod i, fel Aelod Cabinet Gofal,  yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Cyfarwyddwr ac yn cael fy niweddaru ar faterion cenedlaethol , rhanbarthol a lleol.

2.2  Fel cam cyntaf yn dilyn ei phenodiad  cynhaliodd " stock take " gan ymweld â swyddfeydd o fewn ardaloedd a chyfweld rheolwyr a staff rheng flaen. Cyfarfu hefyd â phartneriaid statudol ac o'r trydydd sector a rhoddwyd y cyfle i bawb leisio barn. Yn dilyn hyn cynhaliwyd cynhadledd i reolwyr pan gyflwynwyd dadansoddiad o'r prif ddarganfyddiadau gan gynnwys sylw i frwdfrydedd ac awydd staff rheng flaen i ddatblygu gwasanaethau  ond eu hamharodrwydd i weithredu oherwydd y strwythurau rheolaethol tynn sy'n bodoli ar hyn o bryd . Prif neges y cyfarwyddwr yn y gynhadledd, felly, oedd yr angen i reolwyr fod yn

arweinwyr,  yn annog staff i hunanreoli ac i weithio tuag at ddatblygu cynlluniau arloesol ym maes gofal yng Ngwynedd.  Gwasanaethau ardderchog yw'r nod.

**3. Diogelu ac Amddiffyn:**

3.1 Gellid dadlau mai'r maes mwyaf critigol o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol yw maes diogelu ac amddiffyn a hynny mewn perthynas â phlant , pobl ifanc ac oedolion bregus. Trwythodd y Cyfarwyddwr newydd ei hun yn y maes  gan gynnwys sicrhau hyfforddiant arbenigol a chysylltiad â chefnogaeth uniongyrchol gydag arbenigwyr yr NSPCC ac eraill .

3.2 Drwy'r cyfnod cychwynnol yma bu'n rhaid ymateb i ganlyniadau archwiliadau i faterion amddiffyn plant ym Mhenfro gan sicrhau perchnogaeth gorfforaethol o faterion diogelu ac amddiffyn . Er mwyn cyflawni hyn sefydlwyd Grŵp Diogelu ac Amddiffyn ar lefel strategol oddi fewn y Cyngor a chytunwyd y byddai'r mater yma'n eitem sefydlog ar agenda'r Tîm a'r Grŵp Rheoli Corfforaethol . Yn ychwanegol, sefydlwyd strwythur gyda'r Cyfarwyddwr yn derbyn adroddiadau perfformiad ffurfiol  rheolaidd ar y materion hyn - hyn yn ychwanegol at yr adborth disgwyliedig gan yr Uwch Reolwyr perthnasol.

3.3 Fel Aelod Cabinet â rôl arweiniol yn y maes rwy'n aelod o'r **Bwrdd Diogelu Lleol** ar y cyd rhwng Gwynedd a Môn. Rwyf hefyd yn aelod o **Banel Rhiant Corfforaethol**  y Cyngor sy'n sicrhau buddiannau plant mewn gofal .Yr her yw sicrhau ein bod fel Cyngor yn perchnogi'r agenda diogelu ar lefel gorfforaethol ac nad ydym yn ei weld fel agenda i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn unig.

**4. Archwiliadau:**

4.1 Yn ystod y cyfnod cafwyd  dau archwiliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru gan gynnwys

- Archwiliad Maethu yn Hydref 2012. Roedd yr adroddiad terfynol yn gadarnhaol ac ni wnaethpwyd yr un argymhelliad na gosod gofyniad  ar y gwasanaeth. Nodwyd fod safon y gwasanaeth yn dda o ran arweiniad a rheolaeth , o ran cefnogaeth i ofalwyr maeth ac o ran sefydlogrwydd lleoliadau gyda'r ffigwr sefydlogrwydd eleni'r gorau yng Nghymru. O safbwynt gwella gwasanaeth roedd y prif sylwadau'n ymwneud a'r angen i gryfhau ymarfer ymgynghori ( gyda phlant yn benodol ). Roedd y gwasanaeth eisoes wedi adnabod ac adrodd ar yr angen yma .

- Archwiliad  i Rôl Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngwynedd yn Rhagfyr 2012. Disgwyliwn adborth yn dilyn yr archwiliad gan y dywedwyd yn wreiddiol y byddai'r adroddiad drafft ar gael ganol Ionawr. Ni dderbyniwyd adborth ffurfiol  hyd yma ond gwyddom y bydd yr adroddiad terfynol yn un fydd yn cyfrannu darganfyddiadau cyfres o archwiliadau yn hytrach nag adrodd ar sefyllfa awdurdodau unigol .

Yn ychwanegol, derbyniwyd gwerthusiad blynyddol o'r gwasanaethau cymdeithasol gan yr Arolygiaeth. Roedd yn nodi ar y cychwyn

“Mae perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngwynedd wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn ac mae hyn wedi parhau yn ystod 2011-2012 “

Nodwyd, o ran gwelliannau, fod angen ysgogi moderneiddio gwasanaethau ataliol i oedolion a sicrhau cyflawni ar newidiadau . Nodwyd hefyd yr angen i sicrhau cydweithio ar bob lefel gydag Iechyd.

**5 Perfformiad y Gwasanaeth**

5.1 Fel Aelod Cabinet Gofal mynychais gyfarfodydd monitro chwarterol y Gwasanaeth lle y cyflwynwyd gwybodaeth am berfformiad yn erbyn targedau mewn perthynas â dangosyddion ( cenedlaethol a lleol ) a lle trafodwyd cynnydd o ran y gwelliannau a gytunwyd ar gyfer y cyfnod  Heriwyd y wybodaeth a gyflwynwyd. Yn dilyn y cyfarfodydd hyn cyflwynwyd gwybodaeth i’r Panel Cyflawni perthnasol  a gadeiriwyd gennyf.

5.2 Dylid nodi y gwelwyd datblygu dull adrodd ar sail canlyniadau gan y gwasanaeth ar gyfer y cyfarfodydd yma gyda didoli’r  dangosyddion yn ôl y canlyniad . Roedd hyn yn ei gwneud yn haws cychwyn ar y gwaith o asesu pa ddangosyddion oedd yn mynd i gael effaith gadarnhaol ar y canlyniad ac felly’n dangos lle y dylai’r gwasanaeth ganolbwyntio’i ymdrechion.

5.3 Ym maes **plant a theuluoedd** gwelwyd cynnydd mewn perfformiad mewn perthynas â nifer sylweddol o ddangosyddion yn 2012-13 gan gynnwys ymateb i gyfeiriadau, cynnal adolygiadau, cynadleddau amddiffyn ymweliadau statudol a gofalwyr ifanc . Gwelwyd fod y dangosyddion / mesuryddion lefel Cynllun Strategol yn perfformio’n gadarnhaol. Bu dirywiad mewn perfformiad mewn perthynas â chanran yr adolygiadau statudol amserol ar gyfer plant mewn gofal a sicrhau fod gan bob plentyn Gynllun Addysg Bersonol. Bydd y materion yma’n derbyn sylw rheolwyr  y Gwasanaeth .

5.4 O ran gwelliannau, gwelir fod Cynllun yn ei le bellach ar gyfer gweithredu trefniadau sefydlu Gwasanaeth Integredig i Deuluoedd ar draws Gogledd Cymru. Sefydlwyd tri thîm yn y Gogledd gyda Bwrdd Rheoli rhanbarthol a Chyngor Wrecsam yn arwain . Yn lleol cytunwyd y byddai  Gwynedd a Môn  yn cydweithredu a Môn yn arwain ar y datblygiad yma ac eisoes sefydlwyd Bwrdd Cysgodol i’r Cynllun.

5.5 Yn ystod y cyfnod arwyddwyd Cytundeb ffurfiol adran 33 gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a’r Cyngor gyda’r bwriad o gryfhau’r berthynas gydweithio rhwng y ddau gorff  mewn perthynas â phlant a phobl ifanc anabl a sâl  - Gwasanaeth Derwen.  Fel Arweinydd Portffolio rwy’n aelod o **Fwrdd Rheoli Derwen.**

5.6  Ym maes **oedolion** gwelwyd agor Uned Tai Gofal Ychwanegol Awel y Coleg, Y Bala gyda 30 uned ac 20 wedi’u gosod i denantiaid. Gwelwyd cynllun galluogi yn parhau i berfformio yn ôl y gofynion, gyda’r Uned Galluogi ym Mhlas Gwilym ( ar gyfer defnyddwyr ag angen ymyrraeth ddwys tymor byr) wedi sicrhau

bod 75% o’r achosion wedi dychwelyd adref. Yn ychwanegol gwelwyd cwblhau’r dadansoddiad o anghenion poblogaeth hŷn ardal Porthmadog a chyflwyno’r adroddiad terfynol mewn cyfarfod ym Mhorthmadog ( 11:02:2013)

5.7 Mewn perthynas â gofal dydd pobl hŷn gwelwyd datblygiadau gan Age Cymru yn Nefyn a’r Bala lle sefydlwyd canolfannau Heneiddio’n Dda gyda’r amcan o ddarparu gweithgareddau lu i bobl hŷn. Mae`r Adran yn gweithio tuag at sefydlu gwasanaethau dydd cynaliadwy ar gyfer y dyfodol ar draws gwasanaethau Oedolion. Mae angen iddynt fod yn hyblyg ac mor lleol â phosib er mwyn grymuso unigolion a chymunedau gan gadw cydbwysedd rhwng cynnig dewis, annibyniaeth a chefnogaeth. Bydd hyn yn golygu cyd weithio gyda phartneriaid o fewn y trydydd sector ac eraill er mwyn sicrhau ystod ddigonol o ddarpariaeth.

5.8 Gwelwyd yr agenda gofalwyr yn cynyddu gyda mwy a mwy o bwyslais ar gyfarfod ag anghenion gofalwyr anffurfiol. Heb os, mae **Partneriaeth Gofalwyr Gwynedd** yn gyfrwng i sicrhau sylw i’r maes yma ac mi fydd yn agenda fydd angen sylw manwl o fewn cynlluniau’r Gwasanaethau Cymdeithasol a’r Cyngor yn ei gyfanrwydd dros y 12 mis nesaf yn sgil y pwyslais cynyddol gan Lywodraeth Cymru .

5.9 O ran maes anableddau ac awtistiaeth mae gwaith yn mynd rhagddi i fapio anghenion ac fe gynhwysir y “ pencampwyr “ perthnasol i’r maes yn y broses .Yn ychwanegol gwelir datblygu “galluogi” fel egwyddor sylfaenol yn y maes er mwyn hybu annibyniaeth a chynorthwyo pobl i gyrraedd eu llawn botensial.

5.10 Yn ystod y cyfnod gwelwyd Tîm Iechyd Meddwl Arfon yn symud i swyddfa ger Uned Hergest yn Ysbyty Gwynedd a sefydlu strwythur gydag un rheolwr sirol .Yn ogystal gwelwyd lleoli’r Tîm y Tu Allan i Oriau ger Uned Hergest yn Ysbyty Gwynedd . Mae hyn yn hwyluso cydweithio ag Iechyd ar lefel llinell flaen. Sefydlwyd cyfarfodydd partneriaeth gydag Iechyd er mwyn sicrhau trafodaethau a chytundebau ar lefel reolaethol.

5.11 Fel Aelod Cabinet Gofal rwyf hefyd yn cynrychioli’r Cyngor ar **Fwrdd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid** ( gwasanaeth sydd ar y cyd rhwng Gwynedd a Môn ) , **Panel Diwygio Lles**, **Bwrdd Mantell Gwynedd** ynghyd â **Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.**

**<u>6 Adnoddau</u>**

6.1 Bu’r flwyddyn ddiwethaf yn anodd o ran adnabod arbedion gan sicrhau’r impact lleiaf ar wasanaethau llinell flaen a hynny o fewn cyd-destun cynnydd mewn galw am wasanaethau a’r angen i ddatblygu yn unol â gofynion deddfwriaethol a pholisi. Gallaf adrodd fod y gwasanaeth yn gwneud cynnydd yn erbyn y targedau arbedion ond fod rhai o’r prif brosiectau’n peri rhywfaint o bryder o ran amserlen yn fwyaf arbennig. Bu’r gwasanaeth yn mynd rhagddi gyda’r cynllun o drawsnewid gwasanaethau pobl hŷn gyda phwyslais cynyddol ar hybu a hyrwyddo annibyniaeth drwy ehangu’r ystod o ddarpariaethau sydd ar gael (gan bartneriaid megis Age Cymru ac yn fewnol drwy gynlluniau megis

galluogi a theleofal ). A gwelwyd gostyngiad eto yn y defnydd a wneir o gartrefi preswyl traddodiadol.

6.2 Gwir dweud fod y broses o drawsnewid mewn unrhyw faes yn un heriol dros ben ond efallai'n arbennig o heriol ym maes gofal lle rydym yn draddodiadol wedi bod yn dueddol o ddehongli gofal fel "gofalu am" gyda'r canlyniad fod ein darpariaethau traddodiadol yn golygu " gwneud dros" defnyddwyr . Mae llais ein defnyddwyr yn glir, fodd bynnag, a'u neges yw y dylem wrando arnynt a'u cynnwys ym mhob cam o unrhyw gynllunio, adolygu neu werthuso gwasanaethau gyda phwyslais ar eu cefnogi i fyw mor annibynnol ag y dymunant o fewn eu cymunedau eu hunain. Rwy'n grediniol fel arweinydd portffolio y gallwn wireddu'n huchelgais ond i ni gychwyn drwy ganolbwyntio ar anghenion defnyddwyr fel y cant eu diffinio ganddynt.

**7 Penodi Pencampwyr:**

7.1 Penodwyd pencampwyr i'r meysydd canlynol o fewn maes gofal yn ystod y cyfnod:-

- Pobl Hyn – Y Cynghorydd Gareth Thomas
- Gofalwyr – Y Cynghorydd Eryl Jones Williams
- Awtistiaeth – Y Cynghorydd Dr. Elin Walker Jones
- Anableddau – Y Cynghorydd Peter Read

**B- 2013 ymlaen**

**8. Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy:**

8.1 Ym Mehefin 2011 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur ar ddyfodol y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru sef Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy – Fframwaith Gweithredu, oedd yn gosod fframwaith ar gyfer cyfarfod â'r heriadau sy'n debygol o wynebu'r gwasanaethau cymdeithasol dros y deng mlynedd nesaf a thu hwnt sef

- Newid yn y cyd-destun cymdeithasol
- Demograffeg
- Galw cynyddol ar adnoddau
- Diffyg cysondeb rhwng awdurdodau a chyrff perthnasol.

8.2. Nodwyd y blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn y ddogfen a phwysleisiwyd yr angen i ail lunio ac ail ganolbwyntio'r gwasanaethau er mwyn sicrhau y byddent yn ddigon cryf i ymateb i anghenion a dyheadau dinasyddion y dyfodol.

8.3 Yn Hydref 2012 cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Llywodraeth Leol mewn perthynas â'r uchod . Yn Ionawr 2013 lansiwyd cam cyntaf Bil Gwasanaethau Cymdeithasol ( Cymru ) gyda'r bwriad o osod fframwaith cyfreithiol cydlynol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru a thrawsnewid gwasanaethau.

8.4 Mae’r Bil yn cynnwys chwe phrif faes sef

- Hyrwyddo lles pobl mewn angen gan gynnwys gofalwyr
- Hyrwyddo llais a rheolaeth yr unigolyn mewn perthynas â mynediad i wasanaethau , asesiadau a chymhwysedd
- Gosod cyfeiriad cenedlaethol cryf ac atebolrwydd ar lefel leol
- Diogelu ac amddiffyn
- Rheoleiddio ac arolygu
- Gwasanaethau ( Mabwysiadu a phontio ar gyfer plant a phobl ifanc anabl )

8.5 Bydd hyn yn golygu symud ein pwyslais yma yng Ngwynedd o’r gwasanaethau a darpariaethau traddodiadol a chanolbwyntio ar

- Sicrhau fod llais dinasyddion , defnyddwyr a gofalwyr yn ganolog i gynllunio , datblygu a gwerthuso gwasanaethau ynghyd a threfniadau gofal unigol
- Datblygu pob agwedd o ymarfer comisiynu a datblygu’n perthynas gyda darparwyr
- Gwella perfformiad ac ymarfer yn barhaus gan ganolbwyntio ar ganlyniadau.
- Sicrhau gweithlu gyda’r sgiliau angenrheidiol a rheolwyr yn gallu arwain newidiadau.
- Cryfhau’r gallu i ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus.
- Cyfannu gwasanaethau, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd , a datblygu modelau gwasanaethau newydd
- Datblygu’r agenda ataliol a’r agenda o hyrwyddo annibyniaeth.

8.6 Mae’r uchod yn gosod yr agenda a’r her ar gyfer datblygiadau’r dyfodol a bydd gwaith sylweddol o’n blaen er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ar yr agenda .. Er mwyn sicrhau llais i Wynedd ar lefel genedlaethol mewn perthynas â’r agenda newid hon rwyf, fel Arweinydd Portffolio, yn mynychu ***Grŵp Polisi Cenedlaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol*****.**

## 9. Cymunedau Cynaliadwy a Gwaith ataliol

9.1 Eisoes yn yr adroddiad yma eglurwyd yr angen i drawsnewid gwasanaethau drwyddi draw yn sgil newidiadau demograffig, y cynnydd yn y galw am wasanaethau ynghyd a’r angen i dargedu adnoddau sydd yn prinhau. Eglurwyd hefyd yr angen i’r gwasanaeth ddatblygu i fod yn fwy atebol i ddinasyddion, i wrando ar lais defnyddwyr ac i gydweithio’n nes gyda phartneriaid er mwyn sicrhau'r gwasanaethau gorau a gallu tystiolaethu gwerth am arian. Heb os, bydd y pwyslais yn symud o ganolbwyntio’n unig ar ddefnyddwyr mewn sefyllfaoedd dwys i ganolbwyntio ar agenda ataliol gan sicrhau adnoddau i arbed unigolion rhag bod angen darpariaethau ffurfiol am gyhyd ag sy’n bosibl . Bydd y pwyslais ar hybu iechyd ac ar hyrwyddo annibyniaeth o fewn cymunedau ac er mwyn sicrhau hyn bydd angen ymdrech i greu a chryfhau strwythurau all gefnogi’r mwyaf bregus o fewn cymunedau . Bydd symud i’r cyfeiriad yma’n brofiad newydd ym maes gofal ac ni fydd yn bosibl mynd i’r afael a’r agenda ar ein pen ein hunain . Bydd angen cydweithio gydag iechyd, hamdden, mudiadau lleol ac

eraill er mwyn gwireddu ond yn yr hir dymor credir y gwelwn effaith sylweddol a chadarnhaol ar bobl Gwynedd .

**10 Diweddglo**

10.1 Gwelwyd newidiadau sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf ond llwyddodd y Gwasanaeth drwy'r cyfan i gynnal perfformiad ac i barhau i gynnig gwasanaeth o safon Yn sicr fe welwn newidiadau sylweddol dros y blynyddoedd nesaf a gwn y bydd disgwyliadau o'r Gwasanaeth yn cynyddu. Yr uchelgais yw sicrhau gwasanaeth o'r safon uchaf un - gwasanaeth ardderchog- gyda staff yn hunanreoli oherwydd eu hawch i gyrraedd y nod, a rheolwyr yn gweithredu fel arweinwyr yn y broses o drawsnewid. Yn fwyaf arbennig fe welwn y gwasanaeth yn ffurfio partneriaeth gyda defnyddwyr, gofalwyr a dinasyddion Gwynedd er mwyn cynllunio'n effeithiol ar gyfer y dyfodol. Mae'r agenda'n un heriol ond rwy'n argyhoeddedig fod y gwasanaeth a'r adran yn barod i wynebu'r her honno. Gofynnaf i'r Cyngor dderbyn yr adroddiad yma fel amlinelliad o'm gwaith fel Aelod Portffolio Gofal ac Iechyd dros y flwyddyn ddiwethaf .